## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG

## Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Diwygio) (Cymru) 2001

## Rheoliadau Hadau Betys (Diwygio) (Cymru) 2001

## Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2001

## Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Diwygio) (Cymru) 2001

## Rheoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) (Cymru) 2001

## Rheoliadau Tatws Hadyd (Diwygio) (Cymru) 2001

Yn unol â Rheol Sefydlog 22.5 cyfeiriodd y Dirprwy Lywydd y Rheoliadau uchod i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 23 Hydref 2001, gan roi gorchwyl i'r Pwyllgor adrodd yn ôl cyn pen pythefnos.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Rheoliadau yn ystod ei gyfarfod ar 24 Hydref. Roedd yr Aelodau am nodi eu hanfodlonrwydd am iddynt orfod ystyried y Rheoliadau ar fyr rybudd. Credai'r Aelodau nad oedd hyn wedi caniatáu iddynt roi ystyriaeth briodol i'r Rheoliadau ac oherwydd hynny teimlai rhai ohonynt na allent wneud sylwadau yn eu cylch.

**Ar ôl pleidlais, argymhellodd mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor fod y Rheoliadau'n mynd rhagddynt heb eu diwygio.**

Glyn Davies AC

Cadeirydd, Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig